



Ymateb Cyngghair Gweithwyr y Tir Cymru i Ymgynghoriad y Pwyllgor Economi Masnach a Materion Gwledig ar ei Flaenoriaethau

Undeb llawr gwlad i ffermwyr, tyfwyr, coedwigwyr a gweithwyr ar y tir yw Cyngghair y Gweithwyr Tir (LWA) gyda'r genhadaeth o wella bywoliaeth ein haelodau a chreu system fwyd well i bawb. Mae gennym dros 1000 o ffermydd bach, canolog, cymunedol a theuluol a darpar newydd-ddyfodiaid yn aelodau ar draws y Deyrnas Unedig ac mae LWA Cymru yn cynrychioli tua 200 yng Nghymru.

Perchenogion a gweithwyr mewn busnesau bach yw'n haelodau, sy'n gweithio neu'n chwilio am gyfleoedd i weithio mewn amaeth amaeth-ecolegol a choedwigaeth gynaliadwy. Mae eu marchnadoedd yn rhai lleol i raddau helaeth, gan ddefnyddio cadwyni cyflenwi byr, gan gadw arian yn y cymunedau gwledig lleol. Mae'r arferion y maent yn eu defnyddio eisoes yn cyflawni llawer o'r nodau y mae Llywodraeth Cymru am eu cyflawni gyda'i Chynllun Ffermio Cynaliadwy newydd fel gwella bioamrywiaeth a dal a storio carbon, gan gynhyrchu bwyd a chreu cyflogaeth yn lleol. Ond, er gwaethaf y ffaith eu bod yn darparu llawer o'r nwyddau cyhoeddus y mae Llywodraeth Cymru a'r gwrthbleidiau yn dweud eu bod am eu gweld, mae ffermwyr a choedwigwyr ar raddfa fechan a newydd-ddyfodiaid yn wynebu llu o rwystrau wrth ddechrau neu ehangu eu busnes. Mae llawer o'r rhwystrau hyn yn rhai biwrocraidd a pholisi fel y trothwy 5-hectar ar gyfer cefnogaeth amaethyddol; polisiau caffael cyhoeddus; rhwystrau o ran cynllunio o ran coedwigaeth a busnesau fferm a chyfyngiadau ar grantiau cyfalaf sy'n eu gwneud yn anghynaliadwy o ran garddwriaeth; da byw ar raddfa fechan a ffermio cymysg. Mae rhai eraill yn fwy systemig fel costau uchel tir a thai gwledig; tra-arglwyddiaeth archfarchnadoedd yn y gadwyn gyflenwi bwyd; a thlodi cyfyngedig a chyflogau isel ymhlith defnyddwyr a chynhyrchwyr bwyd.

Fel rhai sy'n arfer amaethyddiaeth a choedwigaeth cynaliadwy mae gan ein haelodau ddealltwriaeth werthfawr o'r hyn sydd angen ei newid os yw Cymru am wynebu'r her o dacro'r argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth, gan ddarparu bwyd a chynnal cymunedau gwledig gwydn. Mae llawer wedi cynnig rhannu eu gwybodaeth, profiad a'u heriau gydag aelodau'r pwyllgor naill ai mewn cyfarfod neu trwy gynnal ymweliadau fferm a choetir. Cysylltwch ar 07737970229 neu holly.tomlinson@landworkersalliance.org.uk i drefnu hyn.

Dull system fwyd gyfan

Mae cysylltiad rhwng yr argyfwng hinsawdd, yr argyfwng bioamrywiaeth, erydu pridd, y bygythiadau i gyflenwadau'r gadwyn fwyd, iechyd meddwl ffermwyr, amodau gweithwyr bwyd a phroblemau iechyd yn gysylltiedig â diet oll â'r ffordd yr ydym yn cynhyrchu, masnachu a bwyta bwyd. Mae eu tacllo yn gofyn am ddull systematig, sy'n edrych ar y system fwyd yn ei chyfanrwydd. Mae llawer o bolisiau a nodau bwyd ac amaeth Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol; ond, maent yn aml yn ynysig. Er enghraifft, nid yw polisi amaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru'n dweud dim am sicrhau bod Cymru'n gallu cynhyrchu diet iach, gan gynnwys ffrwythau a llysiau, i bobl Cymru.

Dros y 6 mis nesaf dylai'r Pwyllgor archwilio sut y mae cynigion polisi yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth yn effeithio ar rannau eraill o'r system fwyd a'r ffordd o sicrhau dull mwy systematig. Edrychwch ar gynigion polisi Cyngghair Polisi Bwyd Cymruⁱ am ragor am ddull o'r fath.

Gwytnwch Cymru a'r angen i ehangu garddwriaeth fwydwy

Yng Nghymru mae diffyg o ran cynhyrchu ffrwythau a llysiau mewn cymhariaeth â'r hyn y mae defnyddwyr yn eu prynu ar hyn o bryd, sydd ynddo ei hun yn is na'r argymhellion iechyd. Dim ond 57% o'r llysiau ac 16% o'r ffrwythau yr ydym yn eu bwyta y mae'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol yn eu cynhyrchu. Yng Nghymru, dim ond 0.1% o dir amaethyddol sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu ffrwythau a llysiau. Mae'r ddibyniaeth yma ar fewnforion yn ein gwneud yn fwy agored i broblemau o ran y gadwyn gyflenwi. Dim ond un enghraifft o hyn yw'r prinder gyrwyr lorïau ar hyn o bryd, ond gyda llawer o'n ffrwythau a llysiau yn dod o wledydd all ddiodef oherwydd newid hinsawdd, mae perygl y byddwn yn gweld llawer mwy. Canfu ymchwil gan Dr Amber Wheelerⁱⁱ, petai dim ond 2% o dir amaethyddol Cymru yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu ffrwythau a llysiau, byddai'n bosibl cynhyrchu holl anghenion "5 y dydd" poblogaeth Cymru. Mae diffyg mynediad at dir, tai a chyfalaf, a chyfyngiadau cynllunio oll yn rhwystrau o ran garddwriaeth, sefydlu ffermydd a'u hehangu. **Dros y 6 mis nesaf dylai'r Pwyllgor archwilio sut y gellir ymdrin â'r rhwystrau ac y gall y sector garddwriaeth fwydwy yng Nghymru ffynnu.**

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Rhaid i'r Pwyllgor dros y 6 mis nesaf a thu hwnt ganolbwyntio ar gynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar ôl Brexit. Er y byddai LWA Cymru yn hoffi mwy o uchelgais o ran cynhyrchu bwyd a chefnogaeth i'r manteision cymdeithasol ac o ran iechyd y gall ffermydd eu cynnig, rydym yn cefnogi cynlluniau i symud y sail ar gyfer cefnogaeth ariannol at fanteision amgylcheddol ac oddi wrth berchentaeth tir.

Ond, rydym yn bryderus y gall ffermydd dan 5 hectar gael eu cau allan fel y maent o ran cymhorthdal ar hyn o bryd. Canfu ymchwil gan LWA a Phrifysgol Coventryⁱⁱⁱ bod ffermydd bach amrywiol yn aml yn cynnig mwy o fanteision amgylcheddol, cymdeithasol ac

economaidd i bob uned ardal mewn cymhariaeth â ffermydd mwy. Rhaid iddynt felly gael eu cynnwys o'u rhan eu hunain ac fel rhan o dirwedd, coridor bywyd gwyllt neu brosiectau trwy ddalgylch cyfan. Fel trothwy cymhwyster gwahanol, rydym yn cynnig meini prawf Cyswllt Ffermio^{iv} o 550 o oriau gwaith y flwyddyn. **Rydym yn annog y pwyllgor i sicrhau bod y cynllun newydd yn galluogi i ffermydd bach (<5ha) fod yn rhan ohono.**

Gweler yn amgaaedig mae ein hymateb i'r Papur Gwyn Amaethyddiaeth i weld rhagor am ein safbwynt ar gynlluniau Llywodraeth Cymru a'n papur ar Ffermio a'r Argyfwng Hinsawdd^v am ffyrdd ymarferol y gall ffermio helpu i daclo'r argyfwng hinsawdd.

Strategaeth Fwyd Gymunedol Fentrus

Mae Rhaglen y Llywodraeth yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu Strategaeth Fwyd Gymunedol. Cynigia hyn gyfle anferth ar gyfer trawsnewidiad i gynyddu ein diogelwch bwyd, sicrhau bod gan ffermwyr fynediad at farchnadoedd lleol sicr a chynyddu gwytnwch cymunedol yn lleol. Ond, heb ddigon o uchelgais, ni fydd hyn yn cael ei wireddu. **Dylai'r Pwyllgor roi blaenoriaeth i graffu ar y Strategaeth Fwyd Gymunedol, pan gaiff ei rhyddhau, i sicrhau bod ynddi gynlluniau uchelgeisiol fel:**

Caffael sector cyhoeddus lleol wedi ei dargedu: gallai ysbytai, ysgolion a chyrff cyhoeddus eraill gynnig marchnad sicr i gynnyrch lleol Cymru ar adeg pan mae ffermwyr da byw Cymru'n wynebu bygythiadau oherwydd mewnforyn newydd wedi eu cynhyrchu yn ôl safonau is; a her gynyddol wrth allforio i'r Undeb Ewropeaidd. Dylai'r Pwyllgor edrych ar gynlluniau cynyddu cyfoeth cymunedol Preston^{vi}, llwyddiant Copenhagen^{vii} gyda chaffael organig lleol¹ a chanfyddiadau cynllun treialu Economi Sylfaenol Sir Gaerfyrddin, i weld sut y gall caffael gyflawni nodau polisi cyhoeddus a chefnogi busnesau lleol.

Cefnogi cynlluniau Amaeth a Gefnogir gan y Gymuned: Mae Cynlluniau Amaeth a Gefnogir gan y Gymuned yn bartneriaeth rhwng ffermwyr a chymunedau lleol, lle mae'r risg yn cael ei rhannu. Maent yn rhoi marchnad leol wedi ei gwarantu i ffermwyr ac mae llawer o gwsmeriaid, sy'n dod yn aelodau, hefyd yn cymryd rhan yn y tyfu. Mae nifer o erddi masnachol, fel Cae Tan ar Benrhyn Gŵyr ac Amaeth Cymunedol Organig Caerhys yn agos at Dyddewi, wedi cael eu sefydlu gan ddefnyddio'r model hwn. Ond, mae diffyg mynediad at dir a chyfalaf yn rhwystro rhagor o gynlluniau rhag cael eu sefydlu a dylai'r Pwyllgor archwilio sut y gallai strategaeth fwyd gymunedol ddewr ymdrin â hyn.

Ymgysylltu â chymunedau a chynghorau lleol: dylai'r strategaeth gyfuno cyfeiriad strategol cenedlaethol ag ymgysylltu cymunedol o'r bôn i'r brig. Dylai ceginau cymunedol a grwpiau bwyd, cynghorau cymuned a thref a chyrff cyhoeddus eraill fod yn rhan o'r broses hon. Mae'r rhwydwaith Mannau Bwyd Cynaliadwy yn cynnig model dda ar gyfer hyn.

Yn cynnwys dyrannu tir: i fod yn llwyddiannus, rhaid i dir fod ar gael i fodloni gofynion tyfu bwyd ar gyfer y strategaeth fwyd gymunedol. Pan fydd tir cyhoeddus ar gael a allai fodloni hyn, dylid ei ddyrannu i dyfu bwyd cymunedol fel blaenoriaeth a dylai polisi cynllunio hwyluso yn hytrach nag atal hyn.

Mynediad at dir a rheoli olyniaeth

Gyda phoblogaeth yn heneiddio ym myd ffermio a'r newidiadau mewn cymorthdaliadau, mae'n debygol y bydd llawer o'r ffermwyr presennol yn ymddeol, rhai ohonynt heb olynnydd amlwg. Mae perygl y bydd hyn yn creu argyfwng o ran exodus o ffermio, wrth i ffermydd bach gael eu cyfuno yn ddaliadau mwy eto neu eu gwerthu i fuddsoddwyr. Byddai hyn yn cyfrannu at golli swyddi, cymunedau gwledig a'r iaith Gymraeg. Yn y cyfamser mae llawer o deuluoedd o newydd-ddyfodiaid i ffermio a thyfu sy'n cael trafferth dod o hyd i dir. Mae rhaglen Mentro Cyswllt Ffermio^{viii} yn cynnig gwasanaeth rhagorol i gysylltu ffermwyr sy'n ymddeol â newydd-ddyfodiaid; ond, gall costau tai uchel, rhwystrau o ran cynllunio a rhai ariannol ddal i wneud partneriaethau a throsglwyddiadau o'r fath yn amhosibl. Er mwyn sicrhau bod ffermwyr yn gallu ymddeol gydag urddas ac y gall newydd-ddyfodiaid sicrhau bod cymunedau amaethyddol yn parhau, **yn y 6 mis nesaf dylai'r Pwyllgor ymchwilio i:**

Sut y gall polisi cynllunio gael ei ddiwygio i'w gwneud yn haws i gael caniatâd ar gyfer anheddau gyda chysylltiadau amaethyddol. Gall ffermwyr sy'n ymddeol ddyddio aros yn eu cartrefi ac efallai na fydd yn bosibl i newydd ddyfodiaid brynu neu rentu ar gyfradd fforddiadwy gerllaw. Mae'r trothwy ar gyfer annedd i weithiwr amaethyddol yn gyfyngol iawn ar hyn o bryd. Yn aml mae'n haws adeiladu tŷ i'w osod na chael lle y bobl sy'n gweithio ar y tir.

Galluogi ffermwyr sy'n denantiaid i gael cyllid: mae cael arian i ddechrau neu arallgyfeirio ar fferm yn arbennig o heriol i ffermwyr sy'n denantiaid, nad oes ganddynt asedau i gael morgais ar eu sail. Dylai'r pwyllgor archwilio sut y gallai Banc Datblygu Cymru gefnogi ffermwyr sy'n denantiaid i godi arian.

Sicrhau bod coedwigaeth o fudd i gymunedau lleol

Er mwyn helpu i daclo'r argyfwng hinsawdd, rhaid i Gymru gynyddu'r gorchudd o goed yn sylweddol gyda choetiroedd ac amaeth-goedwigaeth amrywiol ac wedi eu rheoli'n dda. Ar hyn o bryd dim ond 15% o Gymru sydd dan goed ac mae'r hanes diweddar o ran plannu wedi bod yn druenus (dim ond 80 hectar yn 2017/18). Mae cael mwy o goed yn y ddaear yn heriol a rhaid ei wneud yn ofalus gyda'r goeden iawn yn y lle iawn gan sicrhau bioamrywiaeth, nid ungnwd. Ond, gyda digon o gefnogaeth, a gweithio gyda ffermwyr a rheolwyr tir, gall y gorchudd coed yng Nghymru gael ei gynyddu'n sylweddol. Rydym yn croesawu cynlluniau i

gynyddu'r coed sy'n cael eu plannu, ond mae'n hanfodol i gymunedau lleol gael mynediad i goetir ac nad yw'n arwain at ddiweithdra a diboblogi cefn gwlad.

Mae amaeth-goedwigaeth yn un ffordd o gyflawni hyn. Yma mae plannu coed yn cael ei integreiddio â ffermio, gan ddwyn llu o fanteision fel stribedi cysgodi a rheoli llifogydd, gan sicrhau bod ffermio yn gallu parhau. Gall fforestydd newydd greu swyddi, ond dim ond gyda'r polisiâu cywir. **Yn ystod y 6 mis nesaf, dylai'r Pwyllgor ystyried effaith bosibl plannu coed ar gymunedau gwledig a pholisïau i sicrhau** eu bod yn cael budd. Cynigiwn gefnogaeth i newydd-ddyfodiaid brosesu coed cynradd ac eilaidd; buddsoddi mewn seilwaith cadwyn gyflenwi coed fer a defnyddio caffael cyhoeddus i gefnogi proseswyr coed lleol. Yn yr un modd â ffermio, dylai polisiâu cynllunio gael eu hadolygu er mwyn galluogi tai clwm coedwigaeth gwell yn ogystal â chaniatâd ar gyfer prosesu cychwynnol a storio ar y safle. Gweler ein Maniffesto Coedwigaeth^{ix} am ragor o fanylion ar sut y gellir cefnogi gweithio coetiroedd.

Cyfeiriadau

ⁱ Cynghrair Polisi Bwyd Cymru (2021) Ein Blaenoriaethau ar gyfer System Fwyd sy'n Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol

<https://foodpolicyalliance.cymru/>

ⁱⁱ Wheeler, A. (2018) 'A New Food Diplomacy: Participatory Action Research Findings of a Food System Approach to Public Health Nutrition', Traethawd PhDs, Prifysgol De Cymru/University of South Wales, ar gael yn:

https://pure.southwales.ac.uk/files/5479834/Amber_Wheeler_PhD_1_.pdf

ⁱⁱⁱ Laughton, R. (2017) *A Matter of Scale: A study of the productivity, financial viability and multifunctional benefits of small farms (20 ha and less)*. Landworkers' Alliance a Centre for Agroecology, Prifysgol Coventry ar gael yn:

<https://landworkersalliance.org.uk/wp-content/uploads/2018/10/matterofscale.pdf>

^{iv} Cyswllt Ffermio Meini Prawf <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/taxonomy/term//cyswllt-ffermio-meini-prawf-20072017>

^v The Landworkers' Alliance (2019) *Food, Farming, and the Climate Crisis: How we can feed people and cool the planet*.

https://landworkersalliance.org.uk/wp-content/uploads/2018/10/Farming-Food-and-the-Climate-Crisis_v2.pdf

^{vi} Preston City Council (2021) *Community Wealth Building* <https://www.preston.gov.uk/article/1334/Community-Wealth-Building>

^{vii} FAO (2018) *Copenhagen: Organic Conversion In Public Kitchens* <https://www.milanurbanfoodpolicypact.org/wp-content/uploads/2020/12/Brief-15-Copenhagen-2017.pdf>

^{viii} Cyswllt Ffermio (2021) *Rhaglen Mentro* <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/business/venture>

^{ix} The Landworkers' Alliance Woody Branch (2020) *Forestry Manifesto* <https://landworkersalliance.org.uk/wp-content/uploads/2020/07/Forestry-Manifesto-LWA-final.pdf>